Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Adolygiad Ôl-weithredu o'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio

## Galwad am Dystiolaeth

Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn dechrau ar 29 Hydref 2025

Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn dod i ben ar 22 Rhagfyr 2025

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Adolygiad Ôl-weithredu o'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio

## Galwad am Dystiolaeth

**Galwad am Dystiolaeth a gynhyrchwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae hefyd ar gael yn: https://consult.justice.gov.uk/**

# Yr Alwad hon am Dystiolaeth

| | |
|---|---|
| **I** | Bawb sydd â ddiddordeb mewn hawliadau anafiadau personol sy'n ymwneud ag atchwipio |
| **Hyd** | O 29/10/25 hyd 22/12/25 |
| **Ymholiadau (yn cynnwys ceisiadau am y papur ar fformat arall) i** | Civil Justice & Law Policy<br>Post Point 7.37<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain / London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: whiplash-reform-team@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Gallwch ymateb ar-lein yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/whiplash-reforms-post-implementation-review/<br><br>Fel arall, anfonwch eich ymateb erbyn 22/12/25 i:<br><br>Civil Justice & Law Policy<br>Post Point 7.37<br>Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice<br>102 Petty France<br>Llundain / London SW1H 9AJ<br><br>E-bost: whiplash-reform-team@justice.gov.uk |
| **Papur ymateb:** | Cyhoeddir ymateb i ymarfer yr Alwad hon am Dystiolaeth yn y man |

# Cynnwys


**Rhagair y Gweinidog** **2**

**Crynodeb Gweithredol** **3**

**Cyflwyniad** **5**

**Holiadur** **6**

**Amdanoch chi** **8**

**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** **9**

**Asesiad o'r Effaith** **11**

# Rhagair y Gweinidog



Daeth newidiadau sylweddol i'r broses hawlio yng nghyswllt hawliadau anafiadau personol yn ymwneud â damweiniau ffordd gwerth isel yn sgil y Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio. Ceisiodd y llywodraeth flaenorol ostwng nifer a chost yr hawliadau anafiadau atchwipio er mwyn creu arbedion i ddefnyddwyr ar ffurf premiymau yswiriant is.

Gweithredwyd y Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio ar 31 Mai 2021 gyda'r nod o gyflawni hyn a rhoi mwy o ddewis i hawlwyr o ran sut i wneud eu hawliad.

Ymhlith y mesurau roedd ystod o ddiwygiadau. Datblygodd a lansiodd y Biwro Yswirwyr Moduron borth Hawliadau Anafiadau Swyddogol ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder i gefnogi gwaith gweithredu'r mesurau hyn. Mae'r porth, sy’n rhad ac am ddim, yn cefnogi hawlwyr y mae'r diwygiadau wedi effeithio arnynt i fwrw ymlaen gyda'u hawliadau a'u setlo.

Mae'r llywodraeth hon wedi ymrwymo i sicrhau fod rheoliadau'n cefnogi twf, yn rhoi gwerth am arian ac yn gwireddu ein haddewid i reoli cost yswiriant car. Rydym eisiau sicrhau bod y gyfraith yn gweithio fel y'i bwriadwyd. Dyna pam yr ydym yn cynnal adolygiad ôl-weithredu o'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio. Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth yn nodi cam pwysig yn y gwaith hwnnw.

Mae'r ymatebion i'r Alwad hon am Dystiolaeth yn helpu i sicrhau fod y sail tystiolaeth yn gadarn, yn gyfoes ac yn cynrychioli ystod eang o ddaliadau.

Rwyf yn annog pawb sydd â diddordeb yn y Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio neu’r rhai y mae'r Rhaglen hon wedi effeithio arnynt, i ymateb.



**Sarah Sackman CB AS**
**Y Gweinidog Gwladol dros Gyfiawnder**

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r newidiadau a gafwyd yn sgil y Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio (WRP) yn cael effaith sylweddol ar y ffordd y mae'r holl hawlwyr yn ffeilio, rheoli ac yn bwrw ymlaen gyda hawliadau personol sy'n ymwneud â damweiniau traffig ar y ffordd (RTA). Yn Rhan 1 o Ddeddf Atebolrwydd Sifil (CLA) 2018, cyflwynwyd sawl mesur deddfwriaeth sylfaenol,[1]yn cynnwys:

- diffiniad statudol o anaf atchwipio;
- darpariaeth i'r Arglwydd Ganghellor osod tariff o iawndal sefydlog ar gyfer hawliadau anafiadau personol yn ymwneud â damweiniau ffordd gyda chyfnod prognosis o hyd at ddwy flynedd; a
- gwaharddiad ar geisio neu gynnig setlo hawliad anaf atchwipio heb dystiolaeth feddygol briodol.[2]

Yn y Rheolau Gweithdrefnau Sifil (Diwygiad Rhif 2) 2021, gwnaed newidiadau deddfwriaeth eilaidd i godi terfyn y trac hawliadau bychain yng nghyswllt hawliadau anafiadau personol yn ymwneud â damweiniau ffordd o £1,000 i £5,000. At hyn, daeth y Protocol Cyn Gweithredu ar gyfer Hawliadau Anafiadau Personol islaw i'r Terfyn Hawliadau Bychain Damweiniau ar y Ffordd (Protocol Hawliadau Bychain RTA) i rym ar 31 Mai 2021. Nod hwn oedd cynorthwyo hawlwyr yr oedd y cynnydd yn y trac hawliadau bychain wedi effeithio arnynt. [3]

Gweithredwyd y tariff anafiadau atchwipio gan yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd trwy Reoliadau Anafiadau Atchwipio 2021 ar 31 Mai 2021.[4] Ar yr un pryd, lansiodd Swyddfa'r Yswiriwyr Moduron y gwasanaeth Hawliadau Anafiadau Swyddogol (OIC) ar ran y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Gwasanaeth ar-lein annibynnol a rhad ac am ddim yw'r OIC i bobl â mân anafiadau (gwerth hyd at £5,000) a gyfyd yn sgil damwain ffordd i fwrw ymlaen gyda'i hawliad am iawndal a'i setlo gyda chynrychiolaeth gyfreithiol neu hebddi.

Yn ôl adran 4 Deddf Atebolrwydd Sifil 2018, mae'n ofynnol i'r Arglwydd Ganghellor gwblhau adolygiad o'r tariff cyn pen tair blynedd i'w weithredu a chyn phen tair blynedd

[1] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/29

[2]Mae Rhan 2 o'r Ddeddf Atebolrwydd Sifil yn ymwneud â'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol, nad yw'n rhan o'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio. Fel y cyfryw, mae'r Gyfradd Ddisgownt Anaf Personol y tu allan i gwmpas yr Alwad hon am Dystiolaeth a'r adolygiad ôl-weithredu.

[3] https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/civil/protocol/pre-action-protocol-for-personal-injury-claims-below-the-small-claims-limit-in-road-traffic-accidents-the-rta-small-claims-protocol

[4] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2021/642

wedi hynny.[5] Yn yr adolygiad cyntaf, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, ystyriwyd strwythur a gwerthoedd y tariff anafiadau atchwipio.[6] Cafodd argymhelliad yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd - i godi'r tariff oddeutu 15%  - ei weithredu trwy Reoliadau Anafiadau Atchwipio (Diwygiad) 2025 ar 31 Mai 2025.[7]

Yn ôl adran 4 Deddf Atebolrwydd Sifil 2018, roedd yn ofynnol i Drysorlys ei Fawrhydi (HMT) weithio gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i geisio data gan yswirwyr a chyhoeddi adroddiad erbyn 1 Ebrill 2025. Casglodd yr FCA ddata yn unol â Rheoliadau Trysorlys Ei Fawrhydi a chyhoeddwyd yr adroddiad ar GOV.UK ym Mawrth 2025.[8]

Ar 2 Ebrill 2025, ymrwymodd y llywodraeth i ddechrau adolygiad ôl-weithredu o'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio yn ail hanner 2025. Bydd yr adolygiad hwn yn asesu effeithiolrwydd y Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio wrth iddi gyflawni ei nod datganedig o ostwng nifer a chost uchel hawliadau anafiadau atchwipio ynghyd â materion perthynol eraill, megis datgymell hawliadau anafiadau atchwipio annheilwng, gan sicrhau taliad cymesur am anafiadau atchwipio, cynnal mynediad at gyfiawnder a gwella dewis hawlwyr.

Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth (CfE) yn rhan allweddol o'r broses adolygu. Mae'n gofyn cwestiynau sy'n ceisio casglu data ac adborth perthnasol, gwrthrychol gan randdeiliaid er mwyn helpu i lywio'r Adolygiad Ôl-weithredu. Bydd yr holl gyflwyniadau a thystiolaeth a roddwyd mewn ymateb i'r Alwad hon am Dystiolaeth yn cael eu hystyried ochr yn ochr â data a gasglwyd gan bartneriaid gweithredol ac adrannau eraill y llywodraeth i lywio asesiad olaf y diwygiadau.

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**
**29 Hydref 2025**

[5] https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2018/29/section/4

[6] https://www.gov.uk/government/calls-for-evidence/statutory-review-of-the-whiplash-tariff

[7] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2025/615

[8] https://www.gov.uk/government/publications/the-civil-liability-acts-effect-on-motor-insurance-policyholders

# Cyflwyniad

1. Bwriad ymarfer yr Alwad hon am Dystiolaeth yw casglu tystiolaeth i lywio adolygiad ôl-weithredu'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio. Bydd yn para am wyth wythnos, gan ddod i ben ar 22 Rhagfyr 2025. Mae'r Alwad hon am Dystiolaeth wedi'i hanelu at bobl y mae'r diwygiadau yng Nghymru a Lloegr yn effeithio arnynt.

2. Mae'r mesurau a gyflwynwyd gan Ddeddf Atebolrwydd Sifil (CLA) 2018 a'i deddfwriaeth eilaidd ategol wedi newid y modd y gwnaed hawliadau anafiadau personol, a'r ffordd y cânt eu rheoli, yn sylweddol. Roedd y newidiadau hyn wedi'u cyfeirio at ostwng nifer a chost hawliadau anafiadau atchwipio a'r effaith y gallant ei chael ar bremiymau yswiriant modur. Bydd yr Adolygiad Ôl-weithredu'n ystyried yr effaith y mae'r mesurau hyn wedi'i chael ar nod ac amcanion Rhaglen Diwygio'r Anafiadau Atchwipio fel y'u cyhoeddir yn yr Asesiad terfynol o'r Effaith[9]

3. Rydym yn croesawu sylwadau gan bawb sydd â diddordeb yn y maes hwn. Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod bod gan rai rhanddeiliaid feysydd gwybodaeth arbenigol ac, o bosib, yn dymuno canolbwyntio ar roi tystiolaeth yn y meysydd hynny. Gofynnir i ymatebwyr ystyried y materion a godwyd yn y ddogfen hon ac ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd, gan gyflwyno unrhyw dystiolaeth ddogfennol neu arall sydd ar gael i ategu eu sefyllfa.

4. Nid oes Asesiad o'r Effaith wedi'i baratoi ar gyfer y papur hwn, gan mai ei bwrpas yw casglu tystiolaeth yn hytrach na chyflwyno cynigion polisi i ymgynghori yn eu cylch. Fodd bynnag, byddai croeso i ddata gwrthrychol ac ystyrlon gan randdeiliaid ar effeithiau'r diwygiadau uchod.

---

9 https://view.officeapps.live.com/op/view.aspx?src=https%3A%2F%2Fassets.publishing.service.gov.uk%2Fmedia%2F5c62d19e40f0b676df6e470f%2FWhiplash-impact-assessment.doc&wdOrigin=BROWSELINK

# Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau a ganlyn a nodir yn yr Alwad hon am Dystiolaeth:

1. **A yw diffiniad statudol anaf atchwipio yn disgrifio'r holl hawliadau perthnasol yn gywir?**
2. **I ba raddau y mae cyflwyno tariff atchwipio wedi galluogi taliadau cymesur am boen, dioddefaint a cholli mwynderau hawlwyr?** Rhowch resymau a data, lle bo'n bosibl, i ategu eich barn.
3. **Sut y mae'r diwygiadau wedi cael effaith ar allu hawlwyr i dderbyn iawndal a chael mynediad at gyfiawnder?** Disgrifiwch unrhyw rwystrau neu welliannau posibl a welwyd, gan gyfeirio at dystiolaeth lle bo'n bosibl.
4. **Sut y mae'r cynnydd i'r trac hawliadau bychain wedi cael effaith arnoch chi / eich sefydliad?**
5. **A yw'r diwygiadau i'r trac hawliadau bychain a lansiad porth yr OIC wedi cefnogi hawlwyr i gofrestru a bwrw ymlaen gyda'u hawliadau eu hunain lle maent yn dymuno gwneud hynny?**
6. **Pa newidiadau hoffech chi eu gweld i gefnogi dewis hawlwyr o ran gwneud hawliadau ôl-weithredu gwerth isel sy'n ymwneud â damweiniau ffyrdd?**
7. **Pa mor weladwy/hygyrch yw'r porth OIC pan fo angen i hawlydd wneud hawliad?** Rhowch dystiolaeth ac eglurhad, gan nodi unrhyw welliannau yr hoffech eu hawgrymu.
8. **Os ydych yn hawlydd heb gynrychiolydd neu os oes gennych brofiad o ymgysylltu â hawlwyr nad oes ganddynt gynrychiolaeth, beth yw eich/eu profiad o wneud hawliad anaf personol ôl-weithredu gwerth isel sy'n ymwneud â damwain traffig ar y ffordd?**
9. **Sut y mae'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio wedi cael effaith ar nifer yr hawliadau annheilwng?** Rhowch resymau a data, lle bo'n bosibl, i ategu eich barn.
10. **Sut y mae'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio wedi cael effaith ar nifer y premiymau yswiriant modur?** Rhowch resymau a data, lle bo'n bosibl, i ategu eich barn.

11. **Sut y mae'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio wedi cael effaith ar gostau i hawlwyr, y cyrff sy’n talu iawndal i hawlwyr, neu unrhyw un arall sy'n ymwneud â'r broses hawliadau?**

12. **A oes unrhyw ystyriaeth arall, nad ydyw eisoes wedi ei thrafod, y dylid ei hystyried yn rhan o'r adolygiad?** Rhowch resymau a data, lle bo'n bosibl, i ategu eich barn.

13. **Sut y mae'r Rhaglen Diwygio Anafiadau Atchwipio wedi cael effaith ar bobl â nodweddion gwarchodedig?** Rhowch resymau a data, lle bo'n bosibl, i ategu eich barn.

**Diolch am gymryd rhan yn yr ymarfer Galwad am Dystiolaeth hwn.**

# Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch

| | |
|---|---|
| **Enw llawn** | |
| **Teitl swydd** neu'r rhinwedd yr ydych yn ymateb i'r ymarfer Galwad am Dystiolaeth ynddo (e.e. aelod o'r cyhoedd ac ati.) | |
| **Dyddiad** | |
| **Enw'r cwmni/sefydliad** (os yw'n berthnasol): | |
| **Cyfeiriad** | |
| | |
| **Cod Post** | |
| Pe byddech yn dymuno i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn | ☐ (ticiwch y blwch) |
| Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth iddo, os yw'n wahanol i'r uchod | |
| | |
| | |

**Os ydych yn gynrychiolydd grŵp** dywedwch wrthym beth yw enw'r grŵp a rhowch crynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau yr ydych yn eu cynrychioli.

# Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Ymatebwch ar-lein yn: https://consult.justice.gov.uk/digital-communications/whiplash-reforms-post-implementation-review/

Fel arall, anfonwch eich ymateb erbyn 22/12/25 i:

Civil Justice & Law Policy
Post Point 7.37
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder / Ministry of Justice
102 Petty France
Llundain / London SW1H 9AJ

**E-bost**: whiplash-reform-team@justice.gov.uk

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych gwynion neu sylwadau am y broses Galwad am Dystiolaeth, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

## Copïau ychwanegol

Mae modd cael rhagor o gopïau o'r Alwad hon am Dystiolaeth o'r cyfeiriad hwn ac mae ar gael ar-lein hefyd yn: https://consult.justice.gov.uk/.

Mae modd gofyn am fformatau gwahanol o'r cyhoeddiad hwn trwy anfon e-bost i: whiplash-reform-team@justice.gov.uk.

## Cyhoeddi'r ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r Alwad hon am Dystiolaeth yn y man.

## Grwpiau cynrychioladol

Wrth ymateb, gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli.

## Cyfrinachedd

Gallai gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r Alwad hon am Dystiolaeth, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r trefniadau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Deddf Gwarchod Data 2018 (DPA), y Rheoliad Cyffredinol ar Warchod Data (UK GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yw'r rhain yn anad dim).

Os ydych yn dymuno i'r wybodaeth a gyflwynwch gael ei thrin yn gyfrinachol, cofiwch fod Cod Ymarfer statudol dan yr FOIA y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n ymwneud, ymhlith pethau eraill, ag ymrwymiadau cyfrinachedd. Yn sgil hyn, byddai o gymorth pe gallech egluro i ni pam yr ystyriwch bod y wybodaeth yr ydych wedi'i chyflwyno yn gyfrinachol. Os derbyniwn gais i ddatgelu gwybodaeth, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch eglurhad ond ni allwn sicrhau y gellir cadw cyfrinachedd yn yr holl amgylchiadau.  Ni fydd ymwrthodiad cyfrinachedd a grëir gan eich system TG, ynddo'i hun, i'w weld yn ymrwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Gwarchod Data ac, yn rhan fwyaf o amgylchiadau, golyga hyn na fydd eich data personol yn cael eu datgelu i drydydd parti.

# Asesiad o'r Effaith

Nid oes Asesiad o'r Effaith wedi'i baratoi ar gyfer papur yr Alwad hon am Dystiolaeth gan mai'r hyn y canolbwyntir arno yn y cam hwn o'r broses yw casglu tystiolaeth yn hytrach nag ymgynghori ar gyfres o gynigion. Bydd ymatebion a dderbyniwyd i'r Alwad am Dystiolaeth yn helpu i lywio’r broses o gynhyrchu Asesiad o'r Effaith yn y dyfodol.

**© Hawlfraint y goron 2025**

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth fersiwn 3, ac eithrio lle nodir hynny fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i,nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi  gwybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd gofyn i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae fformatau eraill o'r adroddiad hwn ar gael ar gais o'r Adran Cyfiawnder Sifil a Pholisi Cyfraith trwy anfon e-bost i whiplash-reform-team@justice.gov.uk.